Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw

**West Cross Lane**

**West Cross**

**Abertawe**

**SA3 5LS**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2011**

**gan**

**Gareth Wyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Llwynderw yn ysgol ddynodedig Gymraeg sydd yn gwasanaethu Gorllewin Abertawe.  Mae dalgylch yr ysgol yn ymestyn o Rhossili ar benrhyn Gŵyr i Dderwen Fawr yn Sgeti.  Mae hwn yn ardal sydd yn freintiedig yn economaidd gyda dim ond 2% o'r disgyblion yn haeddu prydau ysgol am ddim.

Ar hyn o bryd, mae 239 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol.  Mae'r plant o dan 5 oed yn cael eu derbyn i'r dosbarth meithrin yn rhan amser yn y Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.  Mae tri dosbarth yn Cyfnod Allweddol 2 (CA), un i ddisgyblion blwyddyn 3 a dau ddosbarth oed cymysg, un ar gyfer blwyddyn 4/5 ac un ar gyfer blwyddyn 5/6.  Yn CA1 mae dau ddosbarth cymysg blwyddyn1 a blwyddyn2 ac uned feithrin a derbyn.

Mae niferoedd disgyblion wedi codi ers yr arolwg diwethaf ym 2005 pryd yr oedd 55 o ddisgyblion llawn amser a 26 rhan amser.  Nodwyd bod agos at 9% o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac nid oes un ohonynt â datganiad o AAA.

Symudodd yr ysgol i safle newydd yn West Cross ym 2008 ac mae adeilad yr ysgol yn arloesol o ran cynllunio ar gyfer cynaladwyaeth.  Mae tua 51% o'r disgyblion yn dod o gartrefi ble siaredir Saesneg fel prif iaith y cartref a thua 49% o'r disgyblion yn dod o gartrefi ble siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer YGG Llwynderw yw £3053 sy'n cymharu gydag uchafswm o £5744 ac isafswm o £2550 ar gyfer ysgolion cynradd yn Abertawe.  Hon yw'r ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 57ain uchaf o'r 89 ysgol gynradd yn Abertawe. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd am naw mlynedd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd bod:

- disgyblion o alluoedd gwahanol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau uchel ;
- sylw da yn cael ei roi i les a iechyd y disgyblion;
- y disgyblion yn cael budd o gwricwlwm amrywiol o fewn adeilad a safle o ansawdd uchel iawn;
- ethos croesawgar iawn sy'n sicrhau bod pob disgybl yn hapus ac yn ddiogel;
- y disgyblion yn datblygu medrau rhyngberthnasol da iawn; ac
- mae'r ysgol yn rhoi sylw addas i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**Rhagolygon gwella**

- Bu safonau'n dda yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac mae
- athrawon ymroddgar ac ansawdd addysgu da ar y cyfan.

Er hyn:

- nid yw cyfundrefnau a gweithdrefnau rheolaethol yn ddigon datblygedig i sicrhau hunanwerthuso a blaengynllunio cynhwysfawr, ac nid yw cyfathrebu gyda rhanddeiliaid, megis rhieni, yn ddigon effeithiol; ac
- nid yw lleiafrif o'r materion oedd angen sylw yn yr arolwg diwethaf wedi eu llwyr diwallu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 parhau gyda'r safonau da presennol ac yn CA2 gwella ansawdd medrau ysgrifennu ymhlith bechgyn yn Gymraeg, a chodi'r canran o ferched sydd yn cyflawni lefel 5 neu well yng ngwyddoniaeth a mathemateg;

A2 sicrhau bod athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gweithredu yn y dosbarthiadau perthnasol;

A3 gwella ansawdd y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) trwy, er enghraifft, ddefnyddio targedau meintiol, a datblygu rôl athrawon a llywodraethwyr wrth fonitro gwaith yr ysgol o fewn y broses hunan arfarnu;

A4 gwella ansawdd dysgu, addysgu ac ymddygiad ble mae hyn yn anfoddhaol;

A 5 sicrhau bod pob athro a llywodraethwr wedi derbyn hyfforddiant mewn swydd (HMS) ar amddiffyn plant ac ymateb yn fwy effeithiol i'r lleiafrif o'r disgyblion sydd â phryderon am fwlian, a

A6 datblygu asesu ymhellach trwy wella effaith marcio, a dilyniant athrawon i waith sydd heb ei gwblhau neu gywiro gan ddisgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Pan fydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi, rhoddir y gweithdrefnau canlynol ar waith:

- bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion; a
- bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae lefelau medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion yn uwch na'r cyfartaledd disgwyliedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni'r deilliannau disgwyliedig am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Ers 2007- 2008 yn CA1, mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni y dangosydd pwnc craidd (DPC) (y lefel ddisgwyliedig, lefel 2, mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na'r cyfartaledd a gyflawnir gan ysgolion a chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hefyd yn uwch na'r dangosyddion ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol (ALl) a Chymru, ac yn y 25% uchaf.

Yn CA1 mae cyrhaeddiad yn y pynciau craidd unigol, sef Cymraeg,mathemateg a gwyddoniaeth, yn uwch nac ysgolion eraill yn eu teulu, ac yn y 25% uchaf rhwng 2007-2008 a 2009-2010. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r norm disgwyliedig, hynny yw, lefel 3 +, yn uwch yn Gymraeg, ond yn is ym mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu â'r teulu o ysgolion yn y pynciau hyn. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn CA1.

Yn CA2, ers 2007-2008 mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni y DPC (y lefel ddisgwyliedig, lefel 4, mewn Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd a gyflawnir gan ysgolion â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae canlyniadau CA2 ymhob pwnc unigol yn uwch na'r ALl, Cymru â'r teulu o ysgolion ers 2008-2009 ac yn y 25% uchaf.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel disgwyliedig, hynny yw, lefel 5 +, yn uwch yn Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'i gymharu a'r teulu o ysgolion yn y pynciau hyn.

Yn CA2, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cyrhaeddiad bechgyn a marched. Er hyn,mae llai o ferched yn cyflawni'n uwch, sef lefel 5 yng ngwyddoniaeth a mathemateg, a mwy o fechgyn yn cyflawni lefel 3, sydd yn is na'r lefel disgwyliedig, wrth ysgrifennu yn y Gymraeg. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cynnydd y disgyblion hynny sydd a hawl i brydau ysgol am ddim â'r disgyblion eraill ac mae cynnydd disgyblion sydd ag AAA yn foddhaol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn CA1 a CA2 yn gwneud cynydd da o ran datblygu y mwyafrif o'u medrau allweddol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn gwrando'n dda iawn, yn siarad yn glir ac yn darllen yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Er hyn, ar brydiau nid yw disgyblion llai galluog yn gwneud cynnydd mor dda yn y medrau hyn.

Mae gwaith ysgrifennu y mwafrif o'r disgyblion yn dda ar y cyfan ar draws y cwricwlwm ac meant yn ysgrifennu at wahanol ddibenion.  Gwnant ddefnydd dda o dermau technegol ac meant yn trefnu eu gwaith yn dda.  Er hyn, yn CA2 mae lleiafrif o engreifftiau o ddisgyblion yn tangyflawni, gyda gwaith heb ei gwblhau neu gywiro, ysgrifennu afler, sillafu anghywir, a chamgymeriadau gramadegol.

Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn rhifedd ac mae'r mwyafrif yn defnyddio eu medrau yn dda ar draws y cwricwlwm.  Mae disgyblion yn arddangos medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu boddhaol.  Mae sgiliau rhyngbersonol a dysgu mwyafrif y disgyblion yn dda iawn ar y cyfan.

Mae canrannau presenoldeb yn foddhaol.

**Lles:  Da**

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at gadw'n heini a bwyta'n iach.  Mae mwyafrif yn cymeryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gan gynnwys hwylio, nofio, a gweithgareddau rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (AGCh).

Mae presenoldeb disgyblion yn 93.6% ar gyfartaledd dros y tair mlynedd ddiwethaf, ac yn uwch na canrannau Cymru, er yn is o'i gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg.  Nid oes unrhyw waharddiad dros dro na gwaharddiadau parhaol, ac mae hyn yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae prydlondeb yn dda, ac mae ymddygiad disgyblion mewn mwafrif o'r gwersi a thu allan i'r ystafell ddosbarth yn dda.  Dangosant barch a chwrteisi tuag at eu cyd-ddisgyblion ac oedolion.  Er hyn, mae lleiafrif o'r disgyblion yn CA2 yn  pryderu am fwlian.

Mae'r disgyblion yn canolbwyntio'n dda iawn wrth weithio ac mae'r mwyafrif yn frwdfrydig iawn dros y tasgau.  Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn datblygu sgiliau rhyngberthnasol da iawn.

Mae penderfyniadau gan gyngor yr ysgol wedi cael effaith bositif ar agweddau o drefniadaeth yr ysgol ac mae'r Cyngor Ysgol wedi cyfarfod â llywodraethwyr, ond nid yw'r cysylltiad hwn wedi llawn ddatblygu.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau sydd yn ateb gofynion disgyblion unigol  a gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.  Mae'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sydd ag AAA yn briodol.

Nodwedd dda yw hyblygrwydd y trefniant yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn sydd yn sicrhau cyfleoedd cyson i'r plant wneud penderfyniadau a dewisiadau eu hunain ynglŷn â'u dysgu.  Mae hyn yn datblygu eu hannibyniaeth a'u hunan hyder yn dda.

Caiff athroniaeth ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen eu gweithredu yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn yn llwyddiannus ond yn blwyddyn1 nid oes digon o ymarferwyr i alluogi hyn. O ganlyniad, tuedda'r addysgu i gael ei orgyfeirio ac nid yw'r gweithgareddau yn cyfateb i sut mae'r plant ifanc yn dysgu bob amser.

Mae'r cwricwlwm yn CA2 yn adeiladu yn dda ar brofiadau'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a CA1. Mae'r athrawon yn cynllunio rhaglenni gwaith hyblyg gyda nodau ac amcanion priodol ym mhynciau y Cwricwlwm Cenedlaethol. Darperir gynlluniau gwaith priodol sydd yn cofnodi y medrau sydd i'w cyflwyno o fewn pob pwnc.

Rhoir sylw da i feithrin medrau a sgiliau'r disgyblion gyda phwyslais dda iawn ar ddatblygu dwyieithrwydd. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o strategaethau sgiliau meddwl. Caiff disgyblion gyfleoedd mwy cyfyng i ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TChG).

Mae'r ysgol yn darparu yn effeithiol iawn ar gyfer Y Cwricwlwm Cymreig ac yn ymateb yn dda wrth hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a ddinasyddiaeth fyd eang. Mae adeilad yr ysgol yn ategu at addysg gynaliadwy'r disgyblion ac yn arwain yr ysgol i gyrraedd safonau da o fewn yr agwedd hon.

Sefydlwyd clwb garddio o fewn yr ysgol i hyrwyddo bywyd cynaliadwy ymhellach ac mae gan yr ysgol Gyngor Eco gweithgar. Maent wedi dechrau datblygu'r system ailgylchu ar draws yr ysgol. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei hyrwyddo trwy'r cwricwlwm. Codwyd ymwybyddiaeth y disgyblion o ysgolion Affrig wrth iddynt godi dros £5,000 at adeiladu ysgol newydd yn Ne Affrig.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod briodol o ddulliau a strategaethau addysgu ac mae'r disgyblion yn cael eu cymell i wneud cynnydd da. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol briodol ac ymwybyddiaeth dda o'r sgiliau a'r medrau. Maent yn fodelau iaith da iawn i'r disgyblion. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd y dysgu.

Mae gwersi yn cael eu cynllunio'n dda gyda amcanion clir sydd yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion ar ddechrau'r sesiynau. Mae'r addysgu ar ei orau pan fydd yr athrawon yn gwneud defnydd o gwestiynau penagored sydd yn herio'r disgyblion ac yn cynnig ystod o brofiadau sy'n ysgogi'r disgyblion i feddwl ac i weithio'n annibynnol.

Mae hyblygrwydd y trefniant yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn sicrhau cyfleoedd cyson î'r plant wneud penderfyniadau a dewisiadau eu hunain ynglŷn â'u dysgu. Cyfrana'r drefniadaeth yma at lefel dda o sgiliau meddwl a datrys problemau. Ni chaiff y dysgu ei orgyfeirio ac o ganlyniad gwnaiff y mwyafrif o'r disgyblion gynnydd da yn ôl eu datblygiad personol.

Yn CA 2 trefnir cyfleoedd da yn aml i'r disgyblion ymchwilio a chyd-drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion wrth iddynt ymateb i dasgau heriol. Mae pob dosbarth wedi ei addurno i safon uchel gyda engreifftiau o waith disgyblion o ansawdd da. Gwneir defnydd effeithiol o fyrddau gwyn rhyngweithiol yn y ddau gyfnod allweddol.

Gwneir ddefnydd dda o adnoddau, er, ar brydiau, ac mewn lleiafrif o'r gwersi, mae diffyg adnoddau ar gyfer y disgyblion,cynllunio  gwan, a chyflymder rhy araf yn cyfyngu ar gyflawniad disgyblion.

Mae system farcio yn bodoli ble mae'r disgyblion yn cael eu cymell i hunan asesu trwy ddefnyddio patrwm goleuadau traffic. Mae'r athrawon yn ymateb i dasgau disgyblion drwy roi adborth llafar a marcio. Er hyn, ar brydiau, nid yw'r arfer hon yn ddigon trwyadl i wella ansawdd cyflawniad disgyblion sydd yn tangyflawni, trwy eu hysgogi i gwblhau, cywiro neu ailddrafftio eu gwaith mewn ffordd gyson.

Mae gan yr ysgol broffiliau disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg gyda esiamplau o waith wedi ei asesu sydd yn eu cynorthwyo i lefelu gwaith disgyblion mewn trefniant gyda'r ysgol gyfun lleol.  Trefnwyd nifer o gyfarfodydd da gyda rhieni i godi eu hymwybyddiaeth o faterion addysgiadol gan gynnwys lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Er hyn, nid yw cyfathrebu gyda rhieni am faterion fel newidiadau i drefniadaeth yr ysgol mor effeithiol.

Mae'r broses o Asesu ar gyfer Dysgu yn datblygu ar draws yr ysgol, ac mae y mwyafrif o'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu ac yn defnyddio meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion.  Mae gweithdrefnau addas i gofnodi cynnydd a chyflawniadau disgyblion ac adrodd i rieni sydd yn cyd-fynd a gofynion statudol.  Caiff rhieni wybodaeth dda am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae ystod o bolisïau statudol mewn lle sydd yn cyflwyno canllawiau i hyrwyddo gofal a lles y disgyblion. Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion yn effeithiol iawn ac mae'r disgyblion yn cael cymorth ac arweiniad priodol fel y bo'r angen.

Gwneir defnydd aml o asiantaethau allanol amrywiol i hybu gwybodaeth y disgyblion am faterion megis diogelwch, iechyd a hylendid.  Mae'r ysgol wedi llwyddo cyflawni nod ansawdd lefel 4 Cynllun Ysgolion Iach Llywodraeth Cymru ac yn gweithio at gyflawni lefel 5.  Mae siop ffrwythau yr ysgol yn llwyddiannus ac yn cael ei rheoli'n dda iawn gan y disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisi a systemau priodol ar gyfer diogelu disgyblion ac mae'r ysgol yn bodloni rheoliadau diogelu yn llawn; mae cyfrifoldebau pob aelod o staff yn glir.  Er eu bod yn deall y systemau, nid yw pob aelod o staff, na'r llywodraethwyr i gyd, wedi derbyn HMS ar weithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol.  Mae gweithdrefnau bwlio yr ysgol,mewn lle, ac mae'r pennaeth yn ymateb i bryderon rhieni ond mae lleiafrif o'r disgyblion yn pryderu am fwlian.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus iawn.  Darperir profiadau cyfoethog i'r disgyblion ar ddiwylliant a threftadaeth yr ardal a Chymru.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn dda ac mae Cynlluniau Addysg Unigol addas ar gael. Mae gweithdrefnau adrodd ar ddisgyblion AAA yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r adeilad yn newydd ac o ansawdd uchel iawn ac mae muriau'r ysgol wedi cael eu haddurno'n ddeniadol gyda chyfeiriadau brith ar y muriau at hanes a llenyddiaeth Cymru. Mae'r ysgol yn arddangos gwaith celf graenus y disgyblion mewn ffordd ddeniadol iawn.

Mae'r adeilad yn addas iawn i gefnogi plant ag anableddau gyda toiled ar bob llawr a mynediad rhwydd trwy ramp a lifft. Mae gan yr ysgol ethos hapus, ysgogol a diogel sy'n sicrhau fod pob unigolyn yn cael cyfle cyfartal. Mae polisiau i hyrwyddo ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu gweithredu mewn ffordd gadarnhaol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth yn ofalgar am y disgyblion a'r staff. Mae ganddo weledigaeth, nodau ac amcanion cadarnhaol sydd yn ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac mae'r dirprwy yn egniol wrth ddatblygu gweithdrefnau'r ysgol. Er hyn, nid yw strategaeth yr uwch dim rheoli yn gyson effeithiol wrth flaengynllunio a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid, megis rhieni.

Mae'r CDY yn cofnodi cynlluniau ar gyfer blwyddyn yn unig. Nid oes cofnod clir i adnabod priodoleddau a chynlluniau gweithredu yn y tymor canolig, a'r hir dymor ac ni ddefnyddir targedau meintiol o fewn y ddogfen i fesur cynnydd.

Mae swydd-ddisgrifiadau priodol yn amlinellu cyfrifoldebau'r staff ac mae'r mwyafrif o athrawon yn rhannu'r cyfrifoldebau am bynciau a meysydd yn foddhaol. Mae'r ysgol yn gweithredu sustem Rheoli Perfformiad yn briodol a darperir cyfleoedd HMS da i staff. Er hyn, mae anghydbwysedd yn y cyfleoedd HMS sydd ar gael, gyda rhai unigolion yn derbyn cyfleoedd hael iawn.

Mae defnydd uchel iawn o athrawon cyflenwi er mwyn rhyddhau staff ar gyfer HMS a gweithgareddau eraill. Nid oes dadansoddiad digonol o ddylanwad y defnydd uchel o athrawon cyflenwi ar brofiadau ac ymddygiad disgyblion,nac ar gyllideb yr ysgol.

Trefnir amryw o gyfarfodydd staff i gynllunio ac i drafod datblygiadau ym myd addysg a threfniadaeth ysgol, ac mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglen dda iawn o gyfarfodydd i'r rhieni ar ddatblygiadau addysgiadol cenedlaethol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac meant yn derbyn data da am gyflawniad disgyblion. Nid oes ganddynt yr un ymwybyddiaeth am ansawdd y dysgu a'r addysgu. Mae'r Adroddiad Blynyddol i rieni yn bodloni'r canllawiau statudol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae ymdrech barhaus gan y pennaeth, y staff a'r corff llywodraethol i wella ar berfformiad blaenorol yr ysgol ac mae'r ysgol yn llwyddo i gynnal safonau da.

Mae'r gyfundrefn hunanarfarnu yn defnyddio ystod o dystiolaeth sydd yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata, cyfraniad staff a barn disgyblion a'r rhieni. Rhanna'r athrawon arfer dda o fewn yr ysgol drwy gyfarfodydd HMS, a rhoddir hyfforddiant i gynorthwyo unigolion i ddatblygu rolau arwain. Mae rhai athrawon yn arsylwi dysgu ac addysgu ond mae'r arfer hwn yn danddatblygiedig.

Mae'r prosesau hunanwerthuso yn gymorth i bennu cryfderau a meysydd ar gyfer gwella. Mae'r ddogfen hunanwerthuso yn gynhwysfawr, er hyn, nid yw'r ddogfen wedi adnabod rhai materion sydd wedi eu cydnabod o fewn yr arolwg presennol er enghraifft trefniant y Cyfnod Sylfaen a phryderon disgyblion am ymddygiad.

Mae'r hunanarfarnu yn arfaethu y CDY ond nid oes digon o ddefnydd o dargedau meintiol a meini prawf i fesur llwyddiant. Gwnaed cynnydd boddhaol wrth ymateb i argymhellion yr arolwg diwethaf.

Manteisir ar y cyswllt gyda'r ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd y dalgylch i rannu profiadau a chyfnewid arferion i wella ansawdd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol da. Mae perthynas dda gyda mwafrif o'r rhieni a chysylltiadau clos hefyd gyda'r gymuned leol wrth sefydlu'r ysgol newydd o fewn ei chymdeithas. Daw rhieni i gynorthwyo yn y Cyfnod Sylfaen ac i wneud gwelliannau i ardal allanol yr ysgol. Cyfoethogir y cwricwlwm yn dda drwy ymweliadau gan nifer fawr o ymwelwyr a chysylltiadau'r ysgol gyda ysgolion mewn gwledydd fel De Affrig. Mae cysylltiadau gydag elusennau ac asiantaethau amrywiol yn hybu lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal i gymedroli asesiadau yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol er mwyn paratoi'r disgyblion hŷn yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Gweithia'r ysgol yn dda gyda cholegau lleol i ddarparu lleoliad buddiol i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon. Mae'r ysgol yn parhau i weithio gyda gwasanaeth addysg yr awdurdod ac ysgol arall i ddod i gytundeb ar ddefnydd o gae chwarae cyfagos.

**Rheoli adnoddau: Da**

At ei gilydd, mae gan yr ysgol adnoddau da iawn ac mae'r adeilad o ansawdd rhagorol. Mae gan yr ysgol staff brwdfrydig sydd yn gymwys i addysgu'r cwricwlwm yn llawn ac maent yn defnyddio eu hamser yn effeithiol. Defnyddir gynorthwywyr dysgu yn dda i gefnogi gwaith athrawon. Er bod gorwariant dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn gweinyddu'r gyllideb yn addas.

Mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian oherwydd y canlyniadau a’r defnydd o adnoddau.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i holiaduron rhieni**

Llanwyd yr holiadur gan bron i chwarter y rhieni. Maent yn gadarnhaol ynglŷn â’r ysgol ar y cyfan. Mae’r mwyafrif ohonynt yn fodlon â’r ysgol ac yn dweud bod eu plant,yn hapus yno ac wedi derbyn cymorth i ymgartrefu’n dda. Mae llawer ohonynt yn teimlo’n gyffyrddus bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da a bod yr addysgu yn dda, gyda disgwyliadau uchel gan y staff. Mae’r mwyafrif yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda. Er hyn, nid yw lleiafrif yn cytuno bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac maent yn ansicr ynglŷn â gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Nid yw lleiafrif yn credu eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn ac nid ydynt yn teimlo’n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i’r ysgol. Nid yw lleiafrif yn credu bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol ar gyfer anghenion arbennig penodol. Nid yw lleiafrif yn teimlo bod amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

**Ymatebion i holiaduron dysgwyr**

Llanwodd y mwyafrif o ddysgwyr CA2 yr holiadur ac roeddent yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn credu eu bod yn gwneud cynnydd da ac yn gwybod ble i gael cefnogaeth gydag unrhyw ofid am eu gwaith. Maent i gyd yn ymwybodol eu bod yn cael eu cefnogi yn dda gan athrawon ac oedolion eraill. Mae bron pawb yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a bod digon o adnoddau i’w galluogi i ddysgu’n dda. Mae’r mwyafrif yn credu bod digon o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd au bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Er hyn, nid yw y mwyafrif yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda er mwyn galluogi hwy i wneud eu gwaith, ac nid yw lleiafrif sylweddol yn credu bod yr ysgol yn delio’n dda gyda unrhyw fwlian.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Branwen Jones | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Catrin James | Arolygydd Cymheiriaid |
| F.Alun Jones (Pennaeth) | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl.  Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.  Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati.  Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |